

Wythnos amgylcheddol  
24-28 Ionawr 2011

Roedd gweithgareddau o bob math wedi eu trefnu ar gyfer yr wythnos amgylcheddol yn ein hysgol ni.

Ben bore Llun daeth Bethan Copeland, y Swyddog Addysg o Ddŵr Cymru atom i roi cyflwyniad i'r ysgol gyfan ac yna gweithdy gyda dosbarthiadau Mr Jones a Mrs Ray. Cawsom hwyl yn dysgu am y cylch dŵr ac am ffyrdd o arbed dŵr. Rydym wedi addo cymryd rhan yn y sialens arbed dŵr wrth frwsio dannedd! Mae popeth bach yn cyfri yn y pen draw.

Mae'r Gweithgor Gwyrdd hefyd wedi cynnal arolwg o'r ffyrdd y gallem ni fel ysgol arbed dŵr.

Dyma'r lluniau:-



Bethan Copeland  
yn dangos y cylch  
dŵr.



Bechgyn blwyddyn  
2 a 3 yn mesur  
dŵr



Abbi, blwyddyn 2,  
y gwyddonydd  
ifanc.



Yr her brwsio  
dannedd



Genethod  
blwyddyn 5 a 6  
yn pwyso a  
mesur!



Sgiliau meddwl  
ar waith!

Ar ddydd Mawrth, buom yn edrych ar y gwahanol adar sy'n dod i fwydo ar dir yr ysgol. Roedd hyn yn rhan o'r arolwg cenedlaethol gan yr RSPB. Roeddem yn teimlo fel naturiaethwyr go iawn gyda'r sbienddrych a llyfr adar Iolo Williams. Fel gwobr am ein gwaith gofalus, cawsom goco poeth a bisgedi i'n cnesu. Pwy fasa'n meddwl fod cymaint o adar yn dod atom i chwilio am fwyd - cyfle gwych i ddysgueu henwau. Yr un mwyaf poblogaidd y bore hwnnw oedd y fronfraith.



Dosbarth Mrs Ray yn brysur yn gwyllo adar tra'n mwynhau'r diod a'r bisged.



## Ein llyfr natur 2011

Cawsom agor llyfr natur er mwyn cofnodi'r newidiadau ym myd natur ar dir yr ysgol.

Cyfle i dynnu lluniau ein hunain gyda camera digidol o rai planhigion yn dechrau blaguro.

Yn ôl yn y dosbarth, roedd rhaid inni ddod o hyd i'w henwau. Mae ganddom rai planhigion diddorol iawn yn tyfu'n wyllt ar ben y cloddiau.

Rydym am gofnodi eto yn y Gwanwyn a'r Haf er mwyn cymharu'r lluniau.

Dyma waith rhai o ffotograffwyr natur y dyfodol!



Planhigyn sy'n perthyn i deulu'r ffwng sef madarch gan Jasmine, blwyddyn 2



Dail  
bythwyrdd  
gloyw yr  
eiddew gan  
Enlli,  
blwyddyn 2.



Blodau melyn  
llachar yr  
eithin gan  
Llion,  
blwyddyn 3

Ar ddiwedd wythnos prysur, daeth cyfle i fyfyrion ar ein bywydau ein hunain a chyfri ein ôl troed carbon ar gyfrifiannell ar y cyfrifiadur. Mae rhai ohonom angen gwneud ychydig o newidiadau er mwyn bod yn fwy eco-gyfeillgar ond llongyfarchiadau i Megan o flwyddyn 6 am fod hefo'r ôl-troed carbon lleiaf yn y dosbarth gyda 1792 cilogram o garbon deuocsid!

Fe wnaethom edrych ar drafnidiaeth ym Mhenisarwaen a chynnal arolwg i ddarganfod pa mor eco-gyfeillgar yw'r gymuned. Bydd ein canlyniadau yn cael eu dadansoddi yn fuan ar ôl inni graffio ar raglen Excel. Felly am y tro, gwyliwch greu gormod o garbon - deuocsid!

